## CYLCH GORCHWYL TECHNOLEG IECHYD CYMRU (HTW)[1]

# Grŵp Llywio HTW

| | |
|---|---|
| Dyddiad Dod i Rym | 27 Tachwedd 2018 |
| Cymeradwywyd Gan | Grŵp Llywio HTW |
| Dyddiad Adolygu | 27 Tachwedd 2019 |
| Awdur Arweiniol | Cyfarwyddwr, Technoleg Iechyd Cymru |
| Fersiwn | v1.1 |

[1] Mae hon yn ddogfen fyw ac felly gall newid. Caiff ei hadolygu a'i diweddaru yn flynyddol, neu'n amlach os bydd angen.

## 1. DIBEN A CHYLCH GWAITH

Darparu cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth effeithiol er mwyn datblygu Technoleg Iechyd Cymru (HTW) a sicrhau ei fod yn 'addas at y diben'. Mae Grŵp Llywio HTW yn sicrhau bod cyngor HTW ar dechnolegau iechyd nad sy'n feddyginiaethau yn genedlaethol berthnasol i ofal cleifion yn GIG Cymru.

## 2. CWMPAS A DYLETSWYDDAU

- Sicrhau bod HTW yn cyflawni yn unol â'r Dibenion a'r Targedau a amlinellir yn y llythyr grant yn ymwneud â 'Dyfarnu Cyllid ar gyfer sefydlu a chynnal Hyb Mabwysiadu Technoleg Cenedlaethol o'r Gronfa Effeithlonrwydd drwy Dechnoleg (ETTF) X.481.HTT'.
- Sicrhau bod ymdrechion HTW yn unol â'r weledigaeth ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru a pholisi a blaenoriaethau cysylltiedig Llywodraeth Cymru.
- Monitro cynnydd rhaglen waith HTW.
- Cyfeirio galwadau penodol ar gyfer pynciau newydd.
- Goruchwylio pwyllgorau allweddol HTW a'u rôl a chylch gwaith.
- Mynd i'r afael ag unrhyw her i brosesau neu gyngor HTW.
- Goruchwylio'r gwaith recriwtio i swyddi allweddol HTW, megis Cadeirydd, Is-gadeirydd a Chyfarwyddwr HTW.

## 3. SWYDDOGAETHAU DIRPRWYEDIG AC AWDURDOD

Sefydlwyd Technoleg Iechyd Cymru (HTW) drwy argymhelliad Gweinidogaethol i gefnogi dull strategol a chenedlaethol ar gyfer canfod, arfarnu a mabwysiadau technolegau iechyd nad ydynt yn feddyginiaethau mewn lleoliadau iechyd a gofal.

Cyfeiriwch at Gylch Gorchwyl a Threfniadau Gweithredu HTW.

## 4. AELODAETH

Mae Grŵp Llywio HTW yn dwyn ynghyd y rhanddeiliaid strategol ar gyfer HTW.

**Aelodau:**

- Cadeirydd HTW (Cadeirydd)
- Swyddog Atebol – Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Felindre
- Cyfarwyddwr HTW
- Is-gadeirydd HTW
- Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru
- Cyfarwyddwr Cynllunio GIG Cymru

**Yn Bresennol:**

- Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru fel Noddwr HTW
- Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol – Ymddiriedolaeth GIG Felindre

- Ysgrifenyddiaeth HTW

## 5. PENODI AELODAU A CHEFNOGAETH

Y Swyddog Atebol, Cadeirydd HTW a Chyfarwyddwr HTW fydd yn penderfynu ar aelodaeth y Grŵp Llywio.

Penodir aelodau yn gyntaf am isafswm o 12 mis cyn y caiff eu rôl ar y Grŵp ei hadolygu'n ffurfiol. Yn ystod y cyfnod hwn gall aelod ymddiswyddo neu gael ei dynnu oddi gan Dîm Rheoli HTW. Unwaith ei fod wedi'i sefydlu, ychwanegir aelodau newydd yn raddol. Bydd hyd arferol penodiadau yn ddwy flynedd, gyda'r posibilrwydd o ail dymor.

Bydd Ysgrifenyddiaeth HTW yn bresennol ac yn cefnogi cyfarfodydd y Grŵp Llywio. Ni fydd y rheolau ar hyd aelodaeth yn berthnasol i'r aelodau hynny.

## 6. CYFARFODYDD Y GRŴP LYWIO

**Cworwm**

Rhaid i o leiaf 50% o'r aelodau sydd â phleidlais fod yn bresennol i sicrhau cworwm y Grŵp.

**Amlder cyfarfodydd**

Cynhelir cyfarfodydd 2 waith y flwyddyn (fel arfer mis Ionawr a mis Mehefin).

Bydd cyfleusterau deialu i mewn ar gael ar gyfer aelodau sy'n methu mynychu'n bersonol.

## 7. PERTHYNAS AC ATEBOLRWYDD

Bydd y Grŵp Asesu yn cadw at safonau, blaenoriaethau a gofynion corfforaethol Ymddiriedolaeth GIG Felindre, e.e. cydraddoldeb a hawliau dynol, pan fydd yn cynnal ei fusnes.

## 8. TREFN CYFARFODYDD

Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn penderfynu pa eitemau fydd yn ymddangos ar yr agenda mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddwr HTW a'r Cadeirydd.

Gall aelodau Panel Arfarnu a Grŵp Asesu HTW hefyd gyflwyno eitemau i gael eu hystyried. Dylai unrhyw aelod sy'n dymuno i eitem gael ei hystyried ar gyfer agenda hysbysu'r Ysgrifenyddiaeth (healthtechnology@wales.nhs.uk) cyn gynted â phosibl.

Caiff yr agenda a'r papurau eu dosbarthu i aelodau Grŵp Llywio HTW o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn cyfarfodydd. Bydd trefn busnes fel arfer yn dilyn yr agenda ond penderfynir yn derfynol ar hyn gan y Cadeirydd. Gellir derbyn papurau a gyflwynir mewn cyfarfod gyda chytundeb penodol y Cadeirydd a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol.

Ni thrafodir unrhyw fusnes arall yn y cyfarfod, ond bai y caniateir hynny gan y Cadeirydd.